



CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**CYMRAEG IAITH GYNTAF
UG/UWCH**

HAF 2015

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2015 TAG CYMRAEG IAITH GYNTAF. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.

Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

CY3

Adran A

Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth

Cyfanswm o 40 marc

- (a) Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc

Mwy na 2 wall – colli 1 marc

Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

cenir: rhaid cyfleu'r ffurf amhersonol yn yr amser presennol/dyfodol yn gywir.

Cenir y gân hon yma heddiw gan y disgybl, fel pob Sadwrn.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Cenir y gân hon yma gan y disgybl, fel pob Sadwrn.

Dyfernir a 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

Cenir y gân hon yma.

Dim marciau gan na ddangosir ystyr na defnydd yn llawn. Gellir defnyddio '*canwyd*' yn y frawddeg hon.

Cenir cân yn uchel nawr.

Dyfernir 2 farc am yr ateb hwn. Derbynnir yr enghraifft hon gan na threiglwyd 'cân' yn dilyn y ferf amhersonol.

na wrandawodd: 'na': ffurf negyddol y rhagenw perthynol. Gellir hefyd ei ddefnyddio fel negydd ar ddechrau cymal enwol neu gymal adferfol.

Dyma'r gŵr *na wrandawodd* ar orchymyn yr heddlu.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

wrtho: angen y defnydd cywir o arddodiad.

Dywedais *wrtho* am ddod i'r swyddfa.

Oddi *wrtho* y derbyniais y llythyr.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

pe bai: mae'r cysylltair 'pe' yn cael ei ddefnyddio wrth ddynodi amod y mae amheuaeth yn ei gylch. Nid yw'r weithred wedi digwydd. Mae 'pe bai' yn un o'r ffurfiau wrth ddefnyddio'r amodol 'pe', amser amherffaith dibynnol.

Awn i'r dref *pe bai* amser gennyf.

Byddwn wedi astudio'r ffilm yn ofalus *pe bai* amser gen i.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Byddai wedi gallu arbed lawer o waith *pe bai* wedi gwrando.

Dyfernir 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall.

Pe bai gennyf y swydd byddaf yn hapus.

Dim marciau. Cysylltair 'os' ac nid 'pe' sydd ei angen yma i gyfleu sicrwydd amodol.

nad oes: Er mwyn negyddu cymal enwol neu gymal perthynol gellir defnyddio 'nad oes'.

'Rwy'n credu *nad oes* nofel debyg yn y Gymraeg.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

(5 x 2 = 10)

- (b) Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod y disgyblion yn defnyddio termau cywir e.e. rhagenw, arddodiad, rhagenw perthynol, cysylltair, cymal.

(i) **trafferth > thrafferth:** mae angen *treiglo'n llaes ar ôl yr arddodiad 'gyda'*.

i'w godi hun > i godi'i hun: angen defnyddio'r *rhagenw blaen (trydydd person unigol)* 'ei' o flaen 'hun'.

(ii) **wneir > wna / wnaiff / wnaeth:** angen *berf bersonol* yma sef *trydydd person unigol amser presennol* y berfenw 'gwneud' ac nid *berf amhersonol* gan fod y gwrthrych yn cael ei enwi.
Gellir derbyn **sy'n gwneud** hefyd.

ag > ac: angen defnyddio'r **cysylltair** 'ac' (yma yn hytrach nag arddodiad).

(iii) **a fydd > y bydd:** angen defnyddio'r *rhagenw perthynol / geiryn perthynol 'y'* yn y cymal perthynol pan ddilynir yr 'y' gan arddodiad personol, neu, ni ellir defnyddio'r *rhagenw perthynol 'a'* ond pan yw'n oddrych neu'n wrthrych y ferf yn yr isgymal.

ynddo > ynddi: gan fod swyddfa yn *enw benywaidd unigol* mae angen defnyddio ffurf fenywaidd yr *arddodiad 'yn'*. Os nodir 'enw benywaidd' yn unig – ½ marc yn unig.

(iv) **Clywais > Chlywais / Ni chlywais:** pan fo'r *ferf yn negyddol* (rhaid *treiglo* 'p,t,c' yn *llaes*).

mewn > yn: angen defnyddio'r *arddodiad 'yn'* yn hytrach na '*mewn*' gan fod y frawddeg yn cyfeirio at ddyffrynnoedd penodol.

Rhesymu ynglŷn â 'penodol' / 'amhenodol' yn unig – ½ marc yn unig. I gael marc llawn rhaid nodi 'arddodiad' a rhesymu 'penodol' / 'amhenodol'.

- (v) **Gwyddwn > Gwn:** angen defnyddio *berf terfyniad amser presennol/ dyfodol person cyntaf unigol* yma yn hytrach na berf amser amherffaith. Mae'r frawddeg yn cyfeirio at weithred yn y dyfodol. Derbynir **y bydd > y byddai** hefyd. Derbynir hefyd 'Gwyddwn y byddwn'.

pleidleisiau > bleidleisiau: *gwrthrych berfenw yn treiglo'n feddal pan ddaw gair neu ymadrodd rhyngddo a'r berfenw neu dreigladd meddal yn dilyn sangiad.*

(10 x 2 = 20)

- (c) Bydd **10** gwall yn y paragraff a rhoddir 1 marc am gywiro pob gwall. Os bydd gwall sillafu neu atalnodi yn y geiriau a ddefnyddir wrth gywiro yna collir $\frac{1}{2}$ marc am bob gwall e.e.

deng mlynedd ar hugain 1 marc

deng mlynedd a'r hugain $\frac{1}{2}$ marc

deg mlynedd ar hugain $\frac{1}{2}$ marc

Bydd angen i'r ymeiswyr ailysgrifennu'r paragraff a **thanlinellu'r** cywiriadau.

Dyma enghraifft sut y gellir cywiro'r paragraff:

Erbyn mis Awst eleni, bydd *Sos Coch* wedi bod yn rhan o'r sîn roc Gymraeg ers **deng mlynedd ar hugain/deg ar hugain o flynyddoedd/30 mlynedd** a dylai'r cyhoeddiad **hwn** ddod â rhagor o gyhoeddusrwydd haeddiannol **iddyn nhw / iddynt hwy**. **Ceir/Cewch/Mae** amrywiaeth o arddulliau yma ac mae safon y chwarae a'r cynhyrchu mor **fentrus ag** erioed. Does dim dwywaith **bod/fod/nad oes** rhywbeth ffres ac annisgwyl ynglŷn â'r alawon a'r harmonïau lleisiol. Er **nad** yw'r gân '*Sbwriel*', **gystal/cystal** â'r gweddill, efallai y gall **droi'n/droi yn / gall fod / gall ddatblygu / tyfu / gall ddod yn** gân boblogaidd.

(10 x 1 = 10)

Adran B

Cyfanswm o 80 marc

Meini Prawf Cwestiwn penodol

- cyfeirio'n benodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau perthnasol
- saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol
- ymdrin â chreffft/arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen.

Dyfarnau marciau:

- rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau
- os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng y marciau un radd
- pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10
- pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20
- rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn gradd i farc y cynnwys
- dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith.

Cwestiwn (a)

*Mae nifer o feirdd y buoch yn astudio eu cerddi yn ymdrin â **thema bywyd**. Cyfeiriwch at gerddi T. H. Parry-Williams, Waldo Williams a Gwyn Thomas gan **gymharu** ymateb y beirdd i'r thema. Dylech gyfeirio at **arddull** y beirdd.*

Y nod yw dewis a dethol yr elfennau perthnasol i ateb gofynion y cwestiwn. Bydd yr **elfen gymharol** yn rhan hanfodol wrth ymdrin â'r thema bywyd.

Mae'r thema bywyd yn arbennig o gryf yng ngwaith T. H. Parry-Williams a gellir dweud mai ymgais i wneud **synnwyr o fywyd** yn wyneb argyfwng y byd modern yw prif bwrpas barddoniaeth THPW. Yn wahanol i sawl bardd, nid ffrwyth myfyrdod a geir ond y myfyrdod ei hun. Mae'n ystyried cysyniadau crefyddol, rhamantaidd, modernaidd, gwyddonol, daearyddol ond heb dderbyn yr un ohonynt yn llawn. Mae Waldo wedyn yn **esbonio ystyr bywyd** i eraill. Gellir sôn bod Gwyn Thomas yn **ymchwilio i ystyr bywyd**.

Ystyr Bywyd: mae'r ddau ryfel byd wedi agor llygaid THPW, a'i arwain i ofyn beth yw ystyr bywyd. Yn y gerdd '*Llyn y Gadair*' ceir yr hyn y gellir ei gymryd fel darlun trosiadol o fywyd dyn yn y cyfnod modern. Sonnir am bysgotwr unig ar y llyn yn rhwyfo'n wyllt ar ddyfroedd bywyd ond heb fynd i unlle ac yn methu â chyrraedd y lan. Yn y gerdd '*Dychwelyd*' gwelir THPW yn rhoi bywyd yn ei gyd-destun ehangaf sef yng nghyd-destun y bydysawd. Ni all dim a wnawn ar y ddaear amharu ar ehangder y bydysawd. Mae'r ddau air '*ffwdan ffôl*' yn cyfleu darlun y bardd o fywyd i'r dim. Eto, gellir ystyried ai rhyw bŵer sydd uwchlaw deall yw'r '*llonyddwch mawr*' a bod y bardd yn pwysleisio'r cadarnhaol sef bod yma dawelwch tangnefeddus wedi marwolaeth.

Breuder Bywyd: mae ymdeimlad o freuder bywyd yng nghanu Gwyn Thomas hefyd ac er mai cerdd ymddangosiadol ysgafn am drip teulu i lan y môr yw *Croesi Traeth* mae myfyrdod dwfn yma wrth i'r bardd sylweddoli na ellir dal gafael ar amser – unwaith yn unig y digwydd unrhyw beth ac wrth iddo fynd heibio, mae ynghlwm mewn hanes. Fel THPW daw Gwyn Thomas i gasgliad ar ddiwedd ei gerdd ac 'Y mae hen ddihareb Rwsiaidd sy'n dweud, 'Nid croesi cae yw byw.

Cywir: croesi traeth ydyw'.

Mae'r syniad o draeth yn addas iawn ac yn cymharu â '*chrych dros dro*' THPW ond y gwahaniaeth mawr yw na wêl Gwyn Thomas fywyd yn '*ffwdan ffôl*' ond yn hytrach yn rhywbeth gwerthfawr.

Dathlu bywyd: er bod chwithdod yng nghanu Gwyn Thomas wrth iddo sylwi na '*ddigwyddith y peth hwn byth eto*', cawn y teimlad ei fod yn dathlu'r ffaith iddo ddigwydd o gwbl. Y dathlu hwn sy'n gwneud ei farddoniaeth a'i ymdriniaeth o thema bywyd mor wahanol i THPW. Yn y gerdd *Yma y mae fy lle* gwelir bod y pethau elfennol Cymreig a ddylanwadodd ar y bardd yn parhau drwy gydol ei fywyd. Yma, sonnir am gyfoeth profiadau ei fywyd ym Mlaenau Ffestiniog, a bod y dylanwadau sydd ar berson yn ei ieuentid yn parhau drwy gydol bywyd '*hyd lefelau dyfnaf fy mod*'.

Agwedd gadarnhaol at fywyd: bardd arall a ddengys agwedd gadarnhaol at fywyd yw Waldo Williams ac mae ei fywyd yn un llawn gobaith. Fel THPW a Gwyn Thomas mae yntau yn ymwybodol o freuder bywyd. Yn y gerdd *Preseli* defnyddia'r trosiad y '*drofa fer*' i ddisgrifio taith bywyd ond ar yr un pryd, fel THPW, mae'n gosod bywyd yn ei gyd-destun ehangach sef o fewn yr hil ddynol – '*yr yrfa faith*'. Wrth ystyried bywyd, mae Waldo'n edrych drwy ei '*fffenestr*' ar yr hil ddynol yn y gorffennol ac yn y presennol o'i amgylch yn y Preseli, ac o wneud hyn caiff ystyr bywyd sef brawdoliaeth.

Brawdoliaeth: Nid ceisio ateb a wna Waldo yn ei gerdd ond rhoi'r ateb – cenhadu. Boed yn y gymdeithas gyntefig y bodolai'r 'eneth ifanc' ynddi yn Avebury ddwy fil o flynyddoedd cyn Crist neu'r gymdeithas y bodolai Waldo ei hun ynddi yn y Preseli, yr un yw'r egwyddor i sicrhau heddwch – brawdoliaeth. Sylweddola mai gwerthoedd ysbrydol a brawdgarwch yw unig obaith y ddynoliaeth i fyw bywyd heddychlon. Er ei fod fel THPW yn byw yng nghysgod y rhyfel, roedd ganddo sicrwydd y byddai daioni sylfaenol dyn yn goroesi unrhyw fygythiad.

Waldo Williams

Byddant yn cyfeirio at:

Preseli

- pwysigrwydd bro'r Preseli, yr iaith Gymraeg a Chymru
- ysgrifennu pan oedd y weinyddiaeth rhyfel yn bygwth codi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal Mynachlog Ddu

- adnabod ei ardal yn dda a'r hyn sydd o'i amgylch sydd wedi magu ynddo annibyniaeth barn
- cyfeirio at ei fro enedigol fel 'bro brawdoliaeth' a chariad Waldo at fro yn tarddu o'r bobl
- gwêl ei fro fel rhan annatod o'i hunaniaeth, bygythiad i'w fro yn tanseilio ei hunaniaeth
- brawdgarwch a brawdoliaeth, penillion 2 a 3: thema allweddol
- cymdeithas ddynol ar y Preseli yn wydn ac yn cydweithio, er yn brin yn faterol, syniad o berthyn yma
- gwêl yn y Preseli obaith i ddynoliaeth, dyma enghraifft berffaith o sut dylai pobl fod yn byw ac yn gweithio gyda'i gilydd – microcosm o Gymru yw'r ardal
- darlun delfrydol o fro ei febyd a'r ple wrth gloi
- heddychiaeth yn y clo, rhyfel a'r ffatri arfau yn bygwth yr heddwch hwn
- Waldo yn gwbl argyhoeddedig nad rhyfel yw'r ateb i broblemau'r gymdeithas
- gobaith yn treiddio drwy'r gerdd, y gobaith am y dyfodol yn cael ei drosglwyddo wrth ddefnyddio delweddau byd natur a'r 'ffenstr' a'r 'ffynnon'
- cerdd rydd – amrywio hyd llinellau ond yn defnyddio odl
- ymhyfrydu yn sw'n a sain yr enwau lleol, delwedd o 'dŷ', ailadrodd y ferf 'cadwn': Waldo yn mynnu bod ei gyd-Gymru yn sefyll fel un, 'perl yr anfeidrol awr' – mae'r lle fel trysor gorau posibl iddo

Geneth Ifanc

- ymweld ag Amgueddfa Avebury yn Wiltshire lle gwelodd y bardd ysgerbwdd merch ifanc mewn gwydr yn hanu o ddyddiad 2,500CC
- myfyrdod, ac o weld ysgerbwdd y ferch mae'r bardd yn cael ei atgoffa am ei chwaer a fu farw'n ifanc, yn ddeuddeg oed. Pwysleisia iddo golli ei chwaer a hithau ynghanol hwyl bywyd.
- 'Deuddeg tro yn y Croeso Mai' a gafodd y ferch cyn i'r 'cydymaith tywyll', sef marwolaeth, fynd â hi ymaith
- pwysleisia'r bardd y distawrwydd ar ôl marwolaeth y ferch
- dychmygai weld yn y cyfnod, wrth ail greu ei bywyd, bobol heddychlun yn trin y tir, dyma ddiddordeb y bardd yn ei chynefin
- gosod ei fys ar symlrwydd cynhenid bywyd, byd natur yn hael a'r tir yn rhoi gobaith
- cawn bwysleisio gwerth heddychiaeth a'i gred mewn brawdgarwch wrth iddo ddarlunio cymdeithas waraidd, amaethyddol gyntefig
- ceir sicrwydd am nefoedd yn y gerdd hon ac mae'r bardd yn myfyrio ar ddirgelwch bywyd
- mewn ymateb i argyfwng cymdeithasol, trodd Waldo at yr 'eneth ifanc' a gweld ynddi'r egwyddor hanfodol yr oedd ar gymdeithas ei hangen i fodoli sef brawdoliaeth
- yn hyn o beth, dyma gerdd gadarnhaol, gwêl fywyd merch yn yr ysgerbwdd marw, marwolaeth wedi cael effaith arno
- mesur cerdd rydd, penillion 4 llinell yn defnyddio lled odl, defnyddio trosiadau, berfenwau e.e. 'prynu' fel petai'r tir yn ildio ei drysorau i'r bobl, ansoddeiriau cymharol, personoli marwolaeth, delwedd y tŷ, cyniildeb

Yma y mae fy lle

- perthyn i ardal bro ei febyd sef Blaenau Ffestiniog
- pwysleisir y dylanwadau a fu arno, dylanwadau na ellir eu dileu
- nid disgrifio a phwysleisio harddwch y lle a wna'r bardd ond yn hytrach yr amrywiaeth o ran tirwedd, y mawnogydd a'r corsydd ar y naill law a'r creigiau ar y llaw arall, a dyma gyfoeth ei brofiadau
- cyfeiria at fyd natur a'r diwydiant llechi, y 'gigfran a'r gylfinir' a'r defaid sef y pethau elfennol Cymreig hynny a ddylanwadodd arno
- y dylanwadau hyn a greodd y bardd a dylanwadu ar 'lefelau dyfnaf fy mod'
- disgrifio bro ei febyd yn y presennol a wna'r bardd
- cerdd yn y wers rydd sy'n defnyddio odl yn achlysurol e.e. defnyddia'r odl wrth gloi'r gerdd er mwyn cysylltu'r geiriau pwysig 'yn ddiddarfod' a 'fy mod', defnyddio ailadrodd 'yma y mae fy lle', gwrthgyferbyniadau: 'mawnogydd a'r manau llaith' ac 'esgeiriau hir y creigiau', cyffelybiaeth 'fel llygadau'r cynfyd', uchafbwynt yn y llinell olaf

Croesi Traeth

- ar y traeth gyda'i deulu a darlun bob dydd o deulu'n mwynhau'r pleserau o fod ar lan y môr, codi cestyll, cicio pêl a chaiff y bardd ei daro bod ei fywyd mor berffaith
- ysgafnder wrth sôn am y 'sychu straffaglus' a 'chrensian drwy frechdan tomato'
- cerdd am dreigl amser, achlysur neu ddigwyddiad a fu ac a ddarfu
- myfyrio ar amser, y bardd yn mynd yn hyn tua'r canol oed, yn 41 oed
- hydrefol yw'r profiad, hydref y flwyddyn, hydref bywyd y bardd, dyddiau digon cyffredin
- rhyw chwithdod i'w deimlo wrth i'r bardd fod ar ei ben ei hun ar y traeth, y traeth yn ddelwedd o amser ac o fodolaeth
- bywyd yn mynd yn ei flaen, tywod yn sylwedd ansicr, symudol, GT am eiliad yn teimlo ansicrwydd
- sylweddola na ellir dal gafael ar amser, unwaith yn unig y digwydd unrhyw beth, ac wedi iddo basio mae ynghlwm mewn hanes, na 'ddigwyddith y peth hwn fyth eto', byrhoedlog yw bywyd
- profiad o fyw sy'n cael ei ddynodi drwy'r trosiad estynedig o draeth fel bywyd, yn gwneud i GT sylweddoli nad oes rhaid iddo ddyheu am y dŵr disglair 'ar ei drai pell'
- syniad o draeth yn addas yma gan fod y darlun o'r môr yn golchi'n ôl ymaith o'r traeth yn gyfarwydd inni i gyd
- er bod chwithdod yn ei ganu wrth iddo sylwi na ddigwyddith y peth hwn byth eto, cawn y teimlad ei fod yn dathlu'r ffaith iddo ddigwydd o gwbl, yn enwedig, digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'i deulu
- cerdd benrhydd, pwyslais ar odli, rhythm, defnyddio iaith lafar, trosiadau cyfoethog, ailadrodd y llinell 'yr oedd hi y diwrnod hwnnw', defnyddio'r cysylltair 'a', ailadrodd cystrawennol 'a dyma, a dyma' yn awgrymu iaith plentyn efallai, tywydd yn cyfleu emosiynau, gwynt yn symbol o newid, cwpled clo effeithiol, defnyddio lleihad.

Llyn y Gadair

- pwysigrwydd ac arwyddocâd bro ei febyd i'r bardd, er nad bardd yn disgrifio harddwch byd natur mohono
- holl brofiadau personol ei fachgendod yn ymwneud â'r ardal yn bwysig iddo
- perthynas y bardd a'i fro mor ddwys fel bod ei hunaniaeth yn dibynnu arnynt, roedd ef a'i fro yn rhan annatod o'i gilydd
- y llyn yn ei ddenu er mor ddisylw ydyw: '*ni wêl y teithiwr talog mono bron*'
- i'r twristiaid, dim ond rhyw ddarn o lyn ydyw, a hwnnw'n llyn bas
- ymateb i'r pysgotwyr a chyfle i ddangos treiddgarwch e.e. darlun o'r dyn unig yn wynebu argyfwng y byd modern, athroniaeth y bardd yn cael ei awgrymu yn y gerdd
- yn y chwechawd, mae'r bardd yn gweld y llyn fel lle nefolaidd – nid ei odidowgrwydd na'i ogoniant gweledol – gweld mai ei gysylltiadau a'i brofiadau yn ymwneud â'r llyn yw'r allwedd
- fel mae'r geiriau '*dewin â dieflig hud*' yn ei awgrymu, ni all y bardd esbonio beth sydd yn ei ddenu at y llyn. Yn wir, nid yw'n ceisio esbonio gan fod y cwpled clo yn pwysleisio unwaith eto nad oes harddwch yn perthyn i'r llyn na'r hyn sydd ar ei lan
- ei ddefnydd o fesur y soned a'r newid yn dilyn yr '*ond*'
- disgrifir y pysgotwr sydd wedi dal diddordeb y bardd gyda'r ansoddair '*unig*', a cheir darlun ohono'n chwipio'r dŵr ac yna'r gyffelybiaeth ohono; gellir cymryd y darlun hwn o'r pysgotwr fel darlun trosiadol o fywyd dyn yn y cyfnod modern
- y modd y mae'r llinellau hyn yn rhedeg i'w gilydd yn un frawddeg hir yn ychwanegu at yr ymdeimlad o argyfwng, un frawddeg yw'r chwechawd sy'n dangos ei agosatrydd, y geiriau '*ond*' ac '*er*' yn allweddol, y gwrthgyferbyniad rhwng agwedd y teithiwr at y llyn a'r mynyddoedd a'r bardd, y rhestru moel yn y cwpled clo
- dywed y bardd wrthym mai pethau syml bywyd yn eu hanfod yw'r pethau gorau

Dychwelyd

- myfyrdod ar farwolaeth a marwoldeb
- ymwneud â bodolaeth dyn a hwnnw heb ffydd ym mywyd tragwyddol y Cristion
- ymgais gan agnostig ansicr i ddadansoddi'r byd y tu hwnt i farwolaeth, dim sôn am Dduw a'r ffydd Gristnogol
- ochri â damcaniaeth wyddonol yn hytrach na chrefyddol
- wythawd yn sôn am yr hil ddynol yn gyffredinol ac na all dim a wnawn ddylanwadu ar y bydysawd
- mae '*grymuster y tangnefedd*' yn gryfach nag unrhyw '*drybestod*' y gallwn ni ei greu
- yn y chwechawd, pwysleisir drwy gyfrwng trosiadau mai '*crych dros dro*' a '*chysgod craith*' yw bywyd dyn
- pwysleisir pa mor fyr a dibwys yw ein bywydau drwy ein cymharu â'r cosmos mewn cyfres o gyferbyniadau, mae'r gerdd yn un cyferbyniad estynedig
- sonia am yr hyn a ddigwydd yn dilyn bywyd, '*llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl*', sef dychwelyd i'r union fan y cychwynnon ni
- pendantrwydd a chynildeb y cwpled clo – fel petai'n croesawu marwolaeth gan fod y llonyddwch terfynol yn apelio ato, hyn yn arwyddocaol
- tybed nad rhyw bŵer sydd uwchlaw deall yw'r '*llonyddwch mawr*'? Ai pwysleisio'r cadarnhaol a wneir sef bod yma dawelwch tangnefeddus wedi marwolaeth?
- mesur soned, defnyddio negyddiaeth, iaith glasurol, un cyferbyniad estynedig rhwng tawelwch y nefoedd a sŵn y ddaear, rhwng bywyd a marwolaeth, sŵn geiriau

Cwestiwn (b)

Trafodwch a **chymharwch syniadaeth a themâu'r cerddi** o waith Twm Morys a Gerallt Lloyd Owen. Wrth eu cymharu, cofiwch gyfeirio at **gynnwys** ac **arddull** y beirdd.

Gallant gyfeirio at 'Y Gŵr sydd ar y Gorwel', 'Ysgerbwd Milwr', 'R.S.' a 'Darllen y Map yn lawn'. Bydd yr elfen **gymharol** yn rhan hanfodol o ofynion y cwestiwn.

Delwedd farddonol y ddau fardd yn gwbl wahanol, eto, y ddau yn canu yn y mesurau caeth.

Defnyddio pobl: Mae Gerallt Lloyd Owen yn defnyddio testun ei gerdd 'Y Gŵr sydd ar y Gorwel' i gyfleu ein diffyg asgwrn cefn fel cenedl. Cawn ein hannog i edrych ar **Saunders Lewis** a dilyn ei esiampl. Ni chaiff gwrthrych y gerdd ei enwi o gwbl. Eto, mae condemniad y bardd o'i genedl yn y gerdd yn dangos ei weledigaeth yn glir. Rhybudd uniongyrchol sydd yma y byddwn ni, genedl y Cymry, yn gweld ein cywilydd ryw ddydd am nad oedden ni wedi gwrandao mwy ar lais **Saunders Lewis**.

Yn wahanol i Gerallt Lloyd Owen, **cyflawni rôl draddodiadol** y bardd yng Nghymru a wna Twm Morys yn ei gerdd farwnad i 'R.S.' drwy ddatlu ei fywyd. Pobl fel hyn sy'n rhoi ystyr i ddiwylliant a chymdeithas a hanes Cymru, a theimlo colled **R. S. Thomas** a wna Twm Morys.

Fel Twm Morys, **edmygu** Saunders Lewis wna Gerallt Lloyd Owen ac er ei fod yn wan ei ymddangosiad, yr oedd ei galon a'i sêl dros **Gymru a'r Gymraeg** gyn gadarned ag unrhyw un, roedd yn '*anfeidrol ei ffydd*'. Roedd R.S. hefyd yn **Gymro i'r carn** ac yn caru pob agwedd ar yr iaith Gymraeg, '*ei hoferòls, a'i hafiaith*', '*yr ifanc, a'r rafin*'. Argraff arwynebol, anghywir a gafodd pobl ddieithr o R.S. gan fethu ag edmygu ei rinweddau. Yn yr un modd, '*Ffŵ!*' ydoedd Saunders Lewis yng ngolwg rhai Cymry.

Yn y gerdd 'Ysgerbwd Milwr' wedyn, **edmygu dewrder y milwr** a wna Gerallt Lloyd Owen gan chwilio ym ysbrydoliaeth yn y milwr i ni heddiw **frwydro i sicrhau rhyddid i'n cenedl**. Mae yma ymwybyddiaeth gref na fyddai cenedl y Cymry wedi goroesi ac na fyddant yn goroesi heb frwydr.

Tra bo cerddi Gerallt Lloyd Owen yn **wleidyddol** eu naws ac yntau fel bardd yn argyhoeddedig bod rhaid brwydro i oroesi sef brwydro yng nghyd-destun cenedlaetholdeb, mae Twm Morys yn argyhoeddedig mai drwy gofio hanes a dod i adnabod ein gwreiddiau a'n hetifeddiaeth y gallwn ddeall y presennol a gobeithio am ddyfodol disglair llawn gobaith.

Hanes gwlad sy'n bwysig felly i Twm Morys a llwydda i ddangos **dyfnder ein hanes** yn ei gerdd '*Darllen y Map yn lawn*'. Mae hanes lleol a hanes teulu yn aml yr un mor werthfawr â hanes cenedlaethol. Cyfarch y darlennydd a wna er mwyn ein harwain i'n hadnabod ni ein hunain ac adnabod ein cynhysgaeth.

Cyfleu gobaith: Gwelwn **obaith** yn y gerdd '*R.S.*' ac y bydd y gwerthoedd hynny y bu R. S. Thomas yn brwydro drostynt yn parhau a'r cof amdano'n fyw. Nid rhywbeth dros dro yw cyfraniad athrylith fel R.S. Mae arwyddocâd neges Twm Morys yn '*Darllen y Map yn lawn*' hefyd yn llawn gobaith ac yn gwrthddweud y syniad mai pobl wasgaredig yw'r Cymry, ac mai dim ond i rannau anghysbell o'n gwlad mae'r iaith yn perthyn. Dengys gryfder ein gwlad, bod cymaint i'w wybod a'i ddysgu. Dathlu map o Gymru a wna ac mae yma **obaith i'r dyfodol** gyda'r haul yn ddelwedd llawn gobaith yn disgleirio drwy'r map. Er gwaethaf beirniadaeth Gerallt Lloyd Owen, mae yntau hefyd fel Twm Morys yn cynnig **gobaith ac arweiniad**. Gwêl lygedyn o obaith ac mae'n **darogan y daw'r genedl at ei choed**. Drwy'r ysgerbwdd gwêl y bardd obaith i ni gael adfywiad fel cenedl.

Cof cenedl: Yn wir, mae '**cof cenedl**' yn arwyddocaol i'r ddau fardd. Heb wybod dim o'i hanes, nid ydym yn gallu symud ymlaen yn hyderus fel cenedl yn ôl Twm Morys. Mae cyfeiriad at hanes hefyd yn hollbwysig i GLLO er mwyn **atgoffa'r Cymry am eu gorffennol a'u hannog i gofio'u cyfrifoldeb at y dyfodol**. Yn y gerdd '*Ysgerbwdd Milwr*' mae'r ysgerbwdd yn '*griddfan hanes*' gan ei fod yn rhan o'n gorffennol ni. Gwêl y ddau fardd hefyd **gysylltiad rhwng iaith a thir**.

Cyfarch y Cymry: Mae'r ddau fardd yn **cyfarch y Cymry** yn eu cerddi, e.e. GLLO yn '*Y Gŵr sydd ar y Gorwel*' yn **herio'r Cymry ac yn rhybuddio'r genedl** yn uniongyrchol a TM yn '*Darllen y Map yn lawn*' yn ein harwain fel cenedl i **adnabod ein gwreiddiau** a'n hetifeddiaeth.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o **fesurau ac arddull** wrth gymharu'r beirdd.

Byddant yn cyfeirio at 'Y Gŵr sydd ar y Gorwel' gan Gerallt Lloyd Owen:

- cydwybod y bardd yn ei bigo ynglŷn â'r modd cywilyddus y gwnaethom drin Saunders Lewis a'i garcharu '*am wir act o Gymreictod*'
- portread o Saunders Lewis: disgrifiad ffisegol, bychan ac eiddil o ran ymddangosiad ond nid o ran ei bersonoliaeth, meddwl chwim, gŵr dysgedig, person breuddwydiol â llais distaw
- y bardd yn dyrchafu'r ysgolhaig a'r cenedlaetholwr i'r carn
- cyffelybu Saunders Lewis ag Iesu Grist – cyfosod aberth Saunders Lewis dros Gymru â'r aberth fwyaf un sef marw ar y groes

- er bod hynny'n eithafol, mae'n ein hatgoffa sut, yn ôl y Beibl, na dderbynnir proffwyd yn ei wlad ei hun a sut cafodd Saunders Lewis, ei greddau a'i weithredoedd, eu gwrthod gennym ni fel cenedl
- y modd y cafodd ei drin gan ei genedl, ceir beirniadaeth ar y Cymry a'u cyhuddo o fod yn anniolchgar, dyma ddangos safbwynt y bardd
- cynganedd – sŵn a phoen sy'n cael eu cyfleu yn llinell gyntaf y cwpled '*naddodd ei chalon iddi a chell oedd ei diolch hi*' yn cymharu â sŵn gwacter y gell yn yr ail linell
- gweledigaeth y bardd, mae'n cynnig ateb '*Ni all sŵn ennill senedd, Ni all fyth heb newydd fedd*' – awgrym o dasgau gwaed a brwydro. Mae'n gwbl blaen ei genadwri, brwydro yn gyfiawn yng nghyd-destun cenedlaetholdeb.
- yn y pennill olaf mae'r bardd yn cyfarch y Cymry ac yn eu herio, eto mae yma obaith. Mae yma ddarogan y daw'r genedl at ei choed, '*daw y dydd Y gweli dy gywilydd*', gan sylweddoli'r hyn a wnaeth Saunders Lewis yn naddu'r '*galon iddi*'.
- diddorol sylwi nad yw'r gwrthrych yn cael ei enwi yn y gerdd o gwbl
- defnyddio trosiadau, defnyddio'r rhagenw '*dy*' yn cyfleu ymdeimlad o agosatwydd, ailadrodd y negydd '*ni*', ailadrodd yn y clo yn creu undod
- defnyddio testun ei gerdd i gyfleu ein diffyg asgwrn cefn fel cenedl, cawn ein hannog i edrych ar SL a dilyn ei esiampl

Ysgerbwdd Milwr

- defnyddia'r bardd ei ddychymyg wrth ddisgrifio ysgerbwdd milwr mewn haen o graig, aiff y bardd yn ôl ganrifoedd i hanes ei genedl ac edmyga ddewrder y milwr a safodd dros ei genedl
- disgrifia ei farwolaeth ar faes y gad a deisyfa weld yr ysgerbwdd hwn yn ysbrydoliaeth i ni heddiw frwydro i sicrhau rhyddid i'n cenedl
- myfyria ar y frwydr y bu'r milwr ynddi cyn troi ei sylw at y milwr ei hun gan ramantu am ei gefndir
- edmyga aberth y milwr ond nid ysgerbwdd yw mwyach ond symbol o'r genedl, aberth o bosibl yn enw cyfiawnder
- awgrymir bod y milwr wedi brwydro dros ei genedl, ac mae'r bardd yn rhag-weld bod y genedl honno, cenedl anfodlon, yn paratoi at frwydr arall ond nad yw hi eto'n barod ar gyfer y frwydr honno
- ymateb y bardd i ryfela a'i effeithiau – ceir deuoliaeth yn yr hyn a wêl y bardd yn y graig, mae marwolaeth y milwr wedi esgor ar rywbeth newydd a thrwy'r ysgerbwdd gwêl obaith i ni gael adfywiad fel cenedl – dyma weledigaeth y bardd
- fel yn holl gerddi'r bardd, mae yma ymwybyddiaeth gref na fyddai cenedl y Cymry wedi goroesi ac na fyddant yn goroesi heb frwydr
- symbol y baban mewn croth, cymysgu synhwyrâu, '*griddfan hanes*' a '*llun ei waedd ar y llonyddwch*', defnydd o ferfau pwerus, gwrthgyferbynnu: byw/marw, oer/cynnes, cwestiynau rhethregol
- y bardd felly yn credu bod pwrpas i farwolaeth yng nghyd-destun gwleidyddiaeth gan mai'r gred bod rhaid brwydro i oroesi sydd wrth wraidd canu'r bardd.

Darllen y Map yn lawn

- cyfarch y darllenydd er mwyn ein harwain i'n hadnabod ni ein hunain, ac adnabod ein cynhysgaeth, gwybod beth sydd wedi ein gwneud yr hyn yr ydym, adnabod ein gwreiddiau, ein hetifeddiaeth
- astudio map o Gymru yn brofiad diddorol, enwau yn dweud llawer, rhywbeth am siâp y tirwedd, neu ddaearyddiaeth yr ardal, neu ryw chwedl neu hanes am y lle
- dathlu'r map a wna'r gerdd hon gan awgrymu i'r darllenydd beth yw'r elfennau pwysig mewn bywyd, y mannau lle cafodd y bardd brofiadau arbennig a'i wreiddiau, y seintiau a'r chwedlau yn bwysig, diwydiannau ac arwyr
- mae'r holl bobl a'r llefydd hyn yn rhan o'n map ni fel Cymry, er efallai fod llawer ohonyn nhw wedi newid a diflannu erbyn hyn
- Twm Morys yn cyfleu bod map i'w gael yn y galon ac yn y meddwl
- rhigwm: mesur syml, cyfres o gwpledi odledig ac mae'r odlau yn rhwydd a naturiol iawn – mae'r symlrwydd yn addas i naws sgysiol y gerdd
- tafodiaith ogleddol, rhythm yr iaith lafar i'w glywed yn glir
- cyfres o orchmynion penodol, rhestru, cyfeiriadaeth, ailadrodd
- arwyddocâd ei neges yn llawn gobaith, mae am i bawb adnabod pob darn o wellt ym mhob cae yn ei gynefin er mwyn adnabod eu hunain a'u gwreiddiau yn well; drwy gofio hanes gwlad, gallwn ddeall y presennol a gobeithio am ddyfodol disglair llawn gobaith
- haul ar y diwedd yn ddelwedd llawn gobaith yn disgleirio drwy'r map, y pelydrau golau yma sy'n cynrychioli Cymru – mae yma obaith i'r dyfodol

R.S.

- cerdd farwnad i'r bardd o Gymro a ysgrifennai yn yr iaith Saesneg
- cyfleu diddordeb y bardd ym myd natur ac yn arbennig mewn gwyllo adar
- cyfeirir ato fel brenin yn ei ardal gan iddo fod yn rheithor eglwysi Rhiw ac Aberdaron am gyfnod maith; hefyd fel Cristion yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod Crist wedi marw er ei fwyn ef a phechaduriaid eraill
- darlun gwahanol a gafodd '*yr hac bollog – o Lundain*' ohono – gwelodd ef fel dyn sych prin ei groeso
- efallai nad oedd ganddo'r un croeso i bawb ond roedd yn hoff iawn o'i adar, ei wraig ac wrth gwrs yr iaith Gymraeg
- symud i Bentrefelin ger Cricieth ar ôl ymddeol, bu farw yn ei gartref a chynhaliwyd cyfarfod coffa iddo yn eglwys y plwyf Pentrefelin
- pwysleisir y ffaith bod Cymru gyfan wedi teimlo'i golli
- mesur y cywydd a dau englyn (awdl) – meistr ar greu darlun cyfan mewn ychydig o linellau, a'r darlun hwnnw yn llawn manyldeb diriaethol
- defnyddio byd natur i gyfleu hiraeth a thristwch e.e. y gwynt yn rhuo, sŵn y derw a'r don yn Aberdaron, cydgysylltu rhwng yr englyn a'r cywydd drwy gyfeirio at '*oer ei groeso*', ailadrodd y ferf '*caraï*', defnyddio trosiad '*gwenoliaid yr ha*', defnyddio'r adar fel delwedd, e.e. yr adar yn parhau yn yr ardal fel y bydd efallai y gwerthoedd hynny y bu R. S. Thomas yn brwydro drostynt, tra bydd yr adar yno bydd y cof amdano'n fyw

Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth (40 marc) 30 am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull: 40 x 2 = 80 marc.

AA2 – Ymateb i Destun	AA2 – Ystod y Marciau (30)		AA3 – Ystod y Marciau (10)
<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd • arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd • defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol 	24-30	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion • rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • saernio'r gwaith yn fwiadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen 	8-10
<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi • crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynus • cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd • arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml • dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd • defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson 	20-23	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion • rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	7

AA2 – Ymateb i Destun	AA2 – Ystod y Marciau (30)		AA3 – Ystod y Marciau (10)
<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas • trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir • defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson 	15-19	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion • rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • cynllunio'r gwaith yn lled-ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	5-6
<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol • cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd • arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau • ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi • defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol • trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir • defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth 	11-14	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol • dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	4

AA2 – Ymateb i Destun	AA2 – Ystod y Marciau (30)		AA3 – Ystod y Marciau (10)
<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd • arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad • dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys • arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol • defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn • ceisio trafod ambell agwedd ar arddull • defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth 	6-10	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir • dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	2-3
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. 	0-5	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. 	0-1

CY5

ADRAN A

Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

- C.1 (a)** Diweddarau gan ddefnyddio *Y Mabinogion* – Dafydd a Rhiannon Ifans yn ganllaw.

Rhannu'r darn yn ddeg fel a ganlyn:

[20 marc]

1. (A) dywedodd Arthur wrth filwyr yr ynys hon, "Fe laddodd (y) Twrch Trwyth lawer o'm gwŷr.
2. Myn gwrhydri gwŷr / yn new dewrder gwŷr, nid aiff/â ef i Gernyw a / â mi yn fyw / tra byddaf / bydda' i'n fyw.
3. Ni / nid erlidiaf fi ef bellach ond ymladdaf ag ef, bywyd / fywyd am fywyd. Gwnewch chwi / chi yr hyn a fynnoch/*beth bynnag a wnewch / fel y mynnoch / fel y dymunwch / fel a fynnoch / beth bynnag a wneloch / beth bynnag a fynnwch.*"
4. Dyma a wnaed / wnaethpwyd ar ei gyngor ef / derbyniwyd ei gyngor: gollwng lleng / byddin o farchogion a chŵn yr ynys gyda hwy i Ewias a dychwelyd oddi yno i Hafren / (i'r afon Hafren).
5. ac ymguddio i ymosod arno yno gan holl filwyr profedig/*profiadol* yr ynys hon a'i yrru am ei fywyd i Hafren
6. (ac) aeth Mabon fab Modron gydag ef ar Wyn Myngd(d)wn march Gweddw i Hafren, a Gorau fab Cystennin a Menw fab Teirgwaedd rhwng Llyn Lliwan ac Aber Gwy.
7. (Ac) ymosododd Arthur arno a rhyfelwyr / milwyr Prydain gydag ef.
8. Dynesodd Osla Gyllellfawr a Manawydan fab Llŷr a C(h)acamwri gwas Arthur a Gwyngelli, a chau arno/*amdano* / amgylchynu a gafael / ymafael yn ei draed yn gyntaf a'i wlychu yn Hafren nes bod (y) dŵr yn llifo drosto/*o'r top i'r llawr*.
9. Ysbardunodd Mabon fab Modron ei geffyl ar un ochr a chael yr ellyn (*rased*) oddi wrtho / oddi arno.
10. Ac o'r / ar yr ochr arall fe ruthrodd Cyledr Wylt i Hafren ar geffyl arall ac fe ddygodd y gwellau (*siswrn*) oddi wrtho / ganddo / oddi arno.

Dyfernir 20 marc am yr ateb ac asesir AA2 ac AA3.
10 marc ymateb i destun + 10 marc iaith = 20 marc.

Dyfernir 20 marc am yr ateb ac asesir AA2 ac AA3.
10 marc ymateb i destun + 10 marc iaith = 20 marc.

AA2 – Ymateb i destun	AA2 Ystod marciau (10)	AA3 – Defnydd iaith ysgrifenedig	AA3 Ystod marciau (10)
<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa a'r gystrawen lle bo angen 	8-10	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen 	8-10
<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa a llawer o'r cystrawennau 	6-7	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • Arddangos adnoddau iaith da • Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen 	6-7
<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau • Llwyddo i ddiweddarau lle bo angen yr eirfa a rhai cystrawennau, er bod peth ansicrwydd i'w ganfod 	5	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	5
<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos peth gwybodaeth am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa a'r ymadroddion 	3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	3-4
<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun • Llwyddo i ddiweddarau'r eirfa 	2	<ul style="list-style-type: none"> • Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	2
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. 	0-1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol gradd E ar adegau yn unig. 	0-1

C.1 (b) Manylwch ar y themâu a geir yn y darn cyfan isod. **[20 marc]**

Disgwyli'r ymgeiswyr allu esbonio themâu sy'n berthnasol i'r darn megis:

Chwech yn mynd trwy'r Byd/Merch y Cawr – Prif thema'r chwedl hon. Chwech o gynorthwywyr a chyneddfau rhyfeddol ganddynt. Motiff gwerin cyffredin yw cael arwr sydd yn ceisio merch y brenin yn wraig iddo. Gwna hynny gyda chymorth 6 o gynorthwywyr talentog. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus yn y chwedlau Groegaidd yw chwedl Jason a'r Argonotiaid o wlad Groeg. Gyda chymorth cynorthwywyr mae Jason yn dod o hyd i'r Cnu Aur. Yma y mae Culhwch yn cael ei gynorthwyo gan y marchogion i gael yr anoethau ac ennill llaw Olwen.

Kenneth Jackson a Rachel Bromwich yn anghytuno ynghylch pwy oedd y cynorthwywyr gwreiddiol ond yma ceir:

1. **Menw fab Teirgwaedd** – swynwr – mewn gwlad baganaidd a allai daflu lledrith dros ei ffrindiau fel na allai neb eu gweld hwy er eu bod hwy'n gallu gweld pawb a phopeth. Bu'n ysbïwr, yn ffurf aderyn, yng nghyffiniau gwâl Twrch Trwyth ac ef a welodd y grib, y siswrn a'r rasel ym mhen Twrch Trwyth. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y marchogion eraill hefyd.
2. Gwrhwr Gwalstawd Ieithoedd – ieithydd
3. Cai – dal ei anadl
4. Bedwyr – hardd a chyflym
5. Cynddylig Gyfarwydd – ffeindio'r ffordd
6. Gwalchmai – cerddwr a marchog gorau

Ceir elfen ffarsaidd, ddoniol a gwrtharwrol yn y portread o **Osla Gyllellfawr** a **Chacamwri** bron â boddi yn afon Hafren. Gellir cyfeirio at **Gyledr Wylt** yn cipio'r siswrn.

Cyfeiriad at **Fanawydan fab Llŷr** – brawd Bendigeidfran a Branwen. Cyfeirir ato mewn dau o'r trioedd: yn un yr oedd yn un o "Dri Lleddf Unben Ynys Brydein" (un o dri arglwydd gwylaidd) ac yn un o "Dri Aur Grydd Ynys Prydein" (un o dri chrydd aur).

Cyfeiriad at **Fabon fab Modron** – gweler thema **Rhyddhau Carcharorion. Hela Twrch Trwyth.**

Un o'r anoethau a roddwyd i Gulhwch i'w ddatrys gan Ysbaddaden Bencawr cyn y câi ganiatâd i briodi Olwen oedd erlid Twrch Trwyth er mwyn cael y grib, y siswrn a'r rasel oddi arno i drin ei wallt a'i farf cyn y briodas. Diwedd dramatig a chyflawniad yr helpa a geir yn y dyfyniad. Gellir sôn am ddylanwad y *Dindschenchas* o Iwerddon ar stori hela Twrch Trwyth. Llauer o'r *Dindschenchas* yn straeon onomastig sy'n esbonio enwau lleoedd ac yn straeon am ŵyr a gwragedd a gafodd eu rhithio'n foch am eu pechod. Mae'r helpa wedi cyrraedd Ewias yn Ne-ddwyrain Cymru a chaiff Twrch Trwyth ei erlid i afon Hafren ac oddi yno tua Chernyw. Y cyfarwydd yn ymdrechu i dynhau'r cyswllt rhwng esbonio enwau lleoedd a symudiadau'r baedd gwyllt a'i genfaint trwy Dde Cymru a thros afon Hafren. Cyfrwystra a dyfalbarhad Twrch Trwyth yn cael ei draed yn rhydd a dianc rhag ei erlidwyr yn uchafbwynt dramatig i'r helpa. Y tlysau'n cael eu cipio oddi arno ar ôl ymdrech fawr ar ei ran i geisio rhwystro Culhwch gyda chymorth Arthur a'i filwyr rhag cyflawni eu gorchwyl.

Thema Arthuraidd – cyfeiriad yma ato fel person o gig a gwaed. Yn *Culhwch* ac *Olwen* y ceir y cofnod chwedlonol cyntaf o Arthur mewn unrhyw iaith. Er iddo gael ei ystyried yn berson hanesyddol – 5/6 G, erbyn cyfnod Culhwch ac Olwen, yr hanesion amdano'n lledaenu. Dylanwad *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Yma mae'n cael ei ystyried yn arwr ac yn gymeriad lliwgar, yn cynorthwyo'n bersonol i gyflawni'r anoethau. Gwyddom oddi wrth y chwedl hefyd ei fod yn gefnder i Gulhwch ar ochr ei fam. Yn yr adran hon y mae Arthur wedi cyrraedd pen ei dennyn oherwydd ystryw Twrch Trwyth ac mae'n barod i'w wynebu ac ymladd am y tlysau bywyd am fywyd, doed a ddelo. Portread o Arthur fel arwr ac arweinydd cryf a phenderfynol a geir ar ddechrau'r dyfyniad. Erbyn y chwedlau diweddaraf fe newidiodd ei gymeriad ac mae'n ymddangos yn falch a thrahaus. Byddai modd i ymgeiswyr gyfeirio at: **Rhyddhau carcharorion** – Motiff llên gwerin pwysig. Mae'r stori hon yn perthyn i ddsbarth enwog o straeon cydwladol am waredigaeth carcharorion. Gellir cyflwyno hyn fel gwybodaeth gefndirol trwy ddweud bod **Mabon fab Modron** wedi cael ei ryddhau o garchar Caerloyw. Ond ni ddylid manylu ar thema'r Anifeiliaid Hynaf. **Mabon fab Modron** oedd mab – duw'r fam-dduwies. Mae'n cael ei ystyried yn un o Dri Goruchel Garcharor Ynys Prydein – ef gipiodd y rasel.

Ystod y marciau	AA2 – Ymateb i destun
16-20	<ul style="list-style-type: none"> • Manylu ar y themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd • Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
12-15	<ul style="list-style-type: none"> • Manylu ar y themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd • Crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
10-11	<ul style="list-style-type: none"> • Manylu ar y themâu, eu cyflwyno'n briodol a dangos eu bod wedi eu deall • Crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas
6-9	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod y themâu, gan ddangos eu bod wedi eu deall • Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • Defnyddio dyfyniadau
4-5	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod o leiaf 1 thema gan ddangos eu bod wedi ei deall • Arddangos gwybodaeth am gynnwys y testun a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun • Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau • Dyfynnu'n achlysurol
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.

ADRAN B

C.2 Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Dyfernir y marciau fel a ganlyn:

- (a) Cefndir y bardd a'r gerdd = 15 marc
- (b) Arddull y dyfyniad = 15 marc
- Defnyddio iaith ysgrifenedig 10 marc

Defnyddio iaith ysgrifenedig 10 marc.
Asesir AA2 ac AA3 yn y cwestiwn hwn hefyd.

Cyfanswm = 40 marc

Dylent drafod cefndir Dafydd ap Gwilym a chefnidir Yr Wylan. Dylent sôn am y cefndir trwy berthnasu eu dadansoddiad i'r dyfyniad a chwilio am dystiolaeth o'r dyfyniad i gadarnhau a goleuo'u hatebion. Dylent allu cyfeirio at rai o'r nodweddion hyn:

Dafydd ap Gwilym

- Barddoni rhwng c.1340 ac 1370
- Tybir iddo gael ei eni ym Mrogynin ym mhlwyf Llanbadarn Fawr ger Aberystwyth a'i gladdu yn Ystrad-Fflur
- Un o feirdd yr Uchelwyr neu'r Cywyddwyr
- Ifor Hael oedd ei brif noddwr a Llywelyn, ei ewythr
- Teithiodd yn eang yng Nghymru
- Arloeswr mesur y cywydd – ehangodd orwelion Cerdd Dafod
- Llwyddodd i gymhathu hen draddodiad barddol Cymraeg y Gogynfeirdd ag elfennau Serch Cwrtais cyfandirol
- Golygwyd 171 cerdd o'i eiddo ar dafyddapgwilym.net
- Ceir rhai o'i gerddi yn llawysgrif Peniarth 49

Y Cywydd

- Cywydd llatai dylanwad Beirdd y Tywysogion a gwaith y Trwbawriaid o Brofens, Ffrainc
- Yr Wylan yw'r llatai
- Credir mai naill ai Aberystwyth neu Gricieth yw'r dref gastellog ar lan y môr
- Canu serch – dylanwad "rheingerddi" Beirdd y Tywysogion; cyfeiriadaeth at Eigr a Fenws
- Dylanwad serch cwrtais cyfandirol – negesydd serch yn ceisio cyrraedd merch anghyraeddadwy
- Byd natur yn bwysig – dylanwad gramadeg Einion Offeiriad
- Natur a serch yn themâu cysylltiedig yn y cywydd a llawer o gerddi eraill Dafydd ap Gwilym

Ystod y marciau	AA2 – Ymateb i destun
12-15	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y gerdd a chefndir y bardd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • Arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
10-11	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • Arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
8-9	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas
5-7	<ul style="list-style-type: none"> • Crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd a'u cyflwyno'n gywir • Arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • Defnyddio dyfyniadau
3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • Ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun • Datblygu ac ehangu ar rai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau • Dyfynnu'n achlysurol
0-2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.

C.2 (b) Arddull y bardd

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu cyfeirio at rai o'r nodweddion hyn a **manylu ar eu heffeithiolrwydd**:

- Cywydd llatai (negesydd serch) at ferch ddiennw a oedd yn byw mewn tref gastellog ar lan y môr
- Cyfarch yr wylan a chanmol ei phrydferthwch
- Canmol trwy ddyfalu – pentyrru delweddau – cymariaethau a throsiadau
- Prydferthwch yr wylan yn symbol o harddwch y ferch
- Delweddau o wynder a gloywder – cynrychioli harddwch a phurdeb y ferch
- Geiriau cyfansawdd e.e. “cyweirglod”, “fwynwas”, ac ati
- Cymeriad llythrennol e.e. “Dilwch/Darn”
- Sangiad e.e. “fwynwas coeth” – sy'n enghraifft o Dafydd yn canmol ei hun
- Gormodiaith – yn gysylltiedig â'r wybodaeth o'r cefndir/nodweddiadol o ganu'r cyfnod (arddull y canu serch) – “dywaid na byddaf/... fyw onis caf” – gellid awgrymu bod hiwmor yn yr ormodiaith
- Cyfeiriadaeth at Eigr mam Arthur – merch o harddwch neilltuol, + Myrddin/Taliesin
- Cyfres o orchmynion yn cyfarwyddo'r wylan yn ei gorchwyl e.e. “dos” “beiddia'i hannerch”
- Disgwylir i'r ymgeiswyr gyfeirio at ddefnydd celfydd Dafydd ap Gwilym o'r gynghanedd
- Barddoniaeth synhwyrus
- Ansoddeiriau – drwy ddyrchafu'r wylan, y ferch yn cael ei dyrchafu hefyd

Ystod y marciau	AA2 – Ymateb i destun
12-15	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • Defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
10-11	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
8-9	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • Defnyddio dyfyniadau addas
5-7	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth • Datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • Defnyddio dyfyniadau
3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi • Datblygu ac ehangu ar rai syniadau • Dyfynnu'n achlysurol
0-2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol. **[10]**

Ystod y marciau	AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig
8-10	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir ac yn groyw • Saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc • Arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • Meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen
6-7	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir ac yn groyw • Saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • Arddangos adnoddau iaith da • Arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen
5	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir • Cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • Gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon • Dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith • Arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • Arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen
2	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol • Dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith • Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • Arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen
0-1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig.

Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.

CY6

ADRAN A – Gwerthfawrogi Barddoniaeth – 60 marc

Cynllun Marcio:

- Mae'r teitl yn cyfleu testun y gerdd yn glir sef Nadolig yng Nghaerdydd ac mae'r llinell gyntaf sydd ar wahân yn datgan meddylfryd y bardd;

'Fel hyn roedd hi 'Methlehem:'

a dyna yw'r gerdd, **llif ymwybod** Iwan Llwyd mewn **penillion tair llinell – mesur rhydd** cynnil sy'n caniatáu rhyddid i'r bardd.

- **Cyfosod dau gyfnod:** rhywbeth y mae Iwan Llwyd yn hoff iawn ohono ac mae llefydd yn ysbrydoliaeth iddo – dyma wedd 'cosmopolitan'. Mae'r awyrgylch brysur yng Nghaerdydd ar drothwy'r Nadolig yn debyg i'r awyrgylch ym Methlehem ar drothwy'r cyfrifiad ac mae'n naturiol i feddwl y bardd fynd yn ôl at enedigaeth Crist ym Methlehem. Dyma gyfosod dau gyfnod – pobl, amser, llefydd a digwyddiad. Er gwaetha'r bwllch rhwng y canrifoedd, yr un yw'r emosiynau – hapusrwydd, cwyno, crïo a chariad.
- **Rhestru:** caiff prysurdeb y ddinas a'r awyrgylch eu cyfleu drwy **restru:** sŵn pobl yn canu a dathlu, y gwerthwyr ar y stryd yn gweiddi eu bargeinion, y dyrfa yn rhuthro o siop i siop, o dafarn i dafarn, cwyno a chrïo'r plant, ffrindiau'n ffraeo, cariadon yn cusanu, hogia'r wlad yn dod i'r dref i wario. Dyma **sylwgarwch** y bardd ar ei orau; rhydd inni **ddarlun gweledol** iawn. Wrth fyfyrion am eiliadau gwelodd Iwan Llwyd yn y sŵn a'r olygfa brysur hon ddarlun o Fethlehem.
- Ceir cyffyrddiadau o'r **gynghanedd lusg** 'a chleber y pedleriaid' yn ogystal â defnydd o **sŵn a sain** geiriau i gyfleu'r awyrgylch, e.e.

'Ffrae rhwng ffrindiau'.

- Ceir **trosiad** i ddisgrifio'r synnau yn symud uwchlaw'r dorf ac mae'r **enw** 'lli' sy'n **drosiad** o'r dyrfa yn effeithiol ac yn clymu â'r **berfenw** nofio:

'yn nofio uwch y dyrfa sy'n rhuthro a chythru gyda'r lli.'

- **Cyfeiriadaeth:** techneg a ddefnyddir yn y llinell:

'yn atsain ym mhen mamau'

sy'n rhan o'r gerdd 'Y Gododdin' gan Aneurin a dyma eto gysylltu'r presennol â'r gorffennol.

- Yn y rhan hon o'r gerdd hefyd mae'r bardd yn tynnu **idiomau o'u cyd-destun**; e.e. cleber y pedleriaid sy'n 'tynnu dŵr o'n dannedd'. Dyrnu rhywun a wneir fel arfer, ond '*dyrnu gwario*' y mae hogiau'r wlad gan awgrymu'n gynnil efallai y bydd ambell ffeit yn digwydd cyn iddynt ddychwelyd adref.

- Er mai Caerdydd yw'r lleoliad, cred Iwan Llwyd mai dyma'r union awyrgylch ym Methlehem hefyd – dim ond amser sydd wedi newid, mae pobl yn parhau yr un fath, yn mwynhau dathlu, yn prysuro a heidio i'r dinasoedd ar drothwy gŵyl. Dyma ryfeddod y tebygrwydd. Ceir llif meddyliau'r bardd wrth iddo feddwl am faban yn cael ei eni i ganol y prysurdeb hwn. Llwydda'r bardd i gyfleu obsesiwn y gyfraith â ffigurau ac arian ac elw'r cyfnod yn **gynnil a dychanol**, rhif ychwanegol ydyw i'r ystadegau, un arall i'w gyfrifo.

*'i dagfa'r ystadegau
a chyfraith a chyfrifiad*

*a llog a chyflog
a chyfle'n llithro
fel y dyddiau drwy'r dwylo'*

- **Ailadroddir** y llinell *'i ganol y bwrlwm daeth baban'* ac mae'r bardd yn oedi gyda'r baban gan ddefnyddio **trosiad** i'w ddisgrifio wrth sôn am ei eni:

*'yn sgrech unig yn sgubor
tosturi rhyw westeiwr.'*

Ond nid baban cyffredin mohono; gwêl y geni hwn fel darn o'r nefoedd yn y gwellt – hynny yw, yn rhyfeddod o'r nefoedd. Ceir **cynildeb awgrymog** a defnydd effeithiol o **gyflythrennu** wrth nodi ei fod yn:

*'ddarn o sêr yn y gwellt gwlyb
a gwrid y gwin a'r groes
eisoes yn ei fochau bach.'*

Mae cyfeirio at y sêr yn awgrymog o gofio am seren y doethion. Roedd yn un yr oedd ei ffawd ar y groes yn *'wrid ar ei fochau bach'* eisoes ac yn hyn o beth mae'r **ansoddair** 'unig' yn gwbl addas yma.

- Ar ddiwedd y gerdd dychwelir i'r **amser presennol**, i oes a ddisgrifia'r bardd fel 'byd yr archfarchnadoedd.' Awgrymir bod Iwan Llwyd ar y naill law yn feirniadol o'n hagwedd faterol ni heddiw at enedigaeth Crist sef mai gŵyl y dathlu, y prynu a'r gwerthu ydyw ond eto ynghanol y prysurdeb materol hwn yng Nghaerdydd, fe lwyddodd y bardd i ymgolli'r hunan ym mwrlwm y dorf a chodi uchlaw'r holl fwrlwm gan fynd yn ôl mewn amser i gyffwrdd â gwir ryfeddod y Nadolig sef geni Crist. Myfyrio wna'r bardd, sefyll yn ei unfan a sylwi ar bobl mewn lle arbennig ar amser arbennig.
- Mae modd cyfeirio at yr ymdeimlad crefyddol a geir yn y gerdd pan awgryma'r bardd drwy gyfrwng y **trosiad** bod cyfle inni heddiw yng nghanol ein materoliaeth i gyffwrdd â phrofiad dwyfol y geni:

'siawns i gyffwrdd â'r sêr'

a meddwl am Grist.

- Mae diddordeb y bardd mewn pobl yn amlwg ac mewn bywyd yn gyffredinol. Ymateba i'r hyn oedd yn digwydd yn ei oes. Un o'r pethau sy'n amlwg yw nad yw pobl yn newid. Er ein bod yn byw ym 'myd yr archfarchnadoedd', yn yr eiliadau arbennig a phrin hynny, gallwn ni gyd godi a chyffwrdd â'r sêr hefyd. Wrth edrych ar y prysurdeb o'i gwmpas yng Nghaerdydd y daw Iwan Llwyd i ddeall pwyslais y byd hwn ar y pethau materol, byd yr archfarchnadoedd yn hytrach na Christ.

Synoptig

Gellir cydio mewn agweddau o ran themâu megis:

- **Llefydd yn bwysig ac yn ysbrydoliaeth**
- **Materoliaeth**
- **Profiad personol / myfyrdod**
- **Gorffennol / presennol**
- **Crefydd**

AA2	AA2 - ystod y marciau (40)	AA3	AA3 - ystod y marciau (20)
<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'n dreiddgar • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynus • cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol • dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar • defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus • croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull 	<p>32-40</p> <p>(<i>Synoptig 8-10</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw • rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif • saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen 	<p>16-20</p>
<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynus • arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • dadansoddi a dehongli'n dda • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol • dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol • defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol • croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull 	<p>26-31</p> <p>(<i>Synoptig - 1</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw • rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen 	<p>13-15</p>
<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas • dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol • defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson • croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull 	<p>20-25</p> <p>(<i>Synoptig 5-6</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir • rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull • cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	<p>10-12</p>

<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas • trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur • defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth • ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull 	<p>14-19</p> <p><i>(Synoptig - 4)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon • dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	<p>7-9</p>
<ul style="list-style-type: none"> • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad • ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol • datblygu ac ehangu ar rai syniadau • defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad • trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur • defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth • creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau 	<p>8-13</p> <p><i>(Synoptig 2-3)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol • dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	<p>4-6</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. 	<p>0-7</p> <p><i>(Synoptig - 1)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. 	<p>0-3</p>

Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un radd i'r marc cynnwys.

Rhoddir canllaw ar gyfer dyfarnu marciau am yr elfen synoptig o fewn amcan asesu - Ymateb i destun (AA2) mewn print italig yn y golofn farciau.

Cwestiwn 2 – Defnyddio'r iaith - 50 marc

Llunio darn o ryddiaith personol a dychmygus ar bwnc arbennig.

Gan mai o dan adran defnyddio'r iaith y daw'r cwestiwn hwn, dylid rhoi lle blaenllaw i ansawdd, mynegiant ac arddull wrth asesu.

AA3 - ysgrifennu	AA3 - ystod marciau
<ul style="list-style-type: none">cyflwyno gwaith llawn dychymyg a gwreiddioldebdewis a dethol yn feistrolgar yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiadsaernio'r gwaith yn fwiadus gan sicrhau undod i'r gwaitharddangos cyfoeth o adnoddau iaithmeistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen	40-50
<ul style="list-style-type: none">cyflwyno gwaith llawn dychymyg a pheth gwreiddioldebdangos ôl dewis a dethol yr elfennau arwyddocaol yn y digwydd a'r profiadsaernio'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaitharddangos adnoddau iaith daarddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen	32-39
<ul style="list-style-type: none">cyflwyno gwaith dychmygus a diddorolllwyddo i ddewis a dethol y perthnasol yn eithaf dacynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaitharddangos amrywiaeth o adnoddau iaithgafael gadarn ar ramadeg a chystrawen	25-31
<ul style="list-style-type: none">creu darluniau personol diddorol a digwyddiadau cyffrousllwyddo i ddewis a dethol y perthnasol ar y cyfanarddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaitharddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen	17-24
<ul style="list-style-type: none">creu disgrifiadau personol ac ambell ddigwyddiad diddoroldefnyddio ystod o eirfa a phatrymau addasarddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen	10-16
<ul style="list-style-type: none">Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.	0-9

Cwestiwn 3 – Tasg cyfieithu – 50 marc

Rhai nodiadau ar y cyfieithu

Rhennir y darn yn ddeg adran hylaw a dosberthir 4 marc i bob adran.

Tynnir $\frac{1}{2}$ marc am bob gwall hyd at 5 gwall.

6 gwall neu fwy – rhaid penderfynu ar ansawdd y frawddeg i benderfynu a ddyfernir 1 marc / $\frac{1}{2}$ marc neu 0.

Ar ôl marcio drwy ddilyn y cynllun hwn bydd gennych gyfanswm allan o 40 marc.

Dylech gyfeirio wedyn yn ôl at y disgrifiadau gradd er mwyn rhoi marc argraff allan o 10 marc.

Dylech sicrhau bod y marc argraff yn adlewyrchu gofynion graddau penodol. Mae hyn yn gyfle i wobrwyo defnyddio ymadroddion Cymraeg a chyfoethog yn feistrolgar, naturioldeb o ran llif y mynegiant a chyfieithu isgymalau yn effeithiol.

Cosbir cyfieithu priod-ddulliau a chystrawennau Saesneg. Bydd angen i ffurfiau'r brawddegau fod yn gwbl Gymraeg. Derbynnir ffurfiau cryno a chwmpasog berfau – y cwmpasog yn dderbyniol ar lafar.

Cyfanswm allan o 40 marc + marc argraff allan o 10 = cyfanswm am y cwestiwn.

AA3 allan o 40	allan o 10
32-40	9-10
26-31	7-8
20-25	5-6
14-19	3-4
8-13	1-2
0-7	0

AA3 - ysgrifennu	AA3 - ystod marciau
<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n feistrolgar ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn feistrolgar • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen 	40-50
<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n briodol ddarn ffeithiol yn fanwl gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn briodol • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen 	32-39
<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n effeithiol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn effeithiol ar y cyfan • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	25-31
<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n foddhaol ar y cyfan ddarn ffeithiol yn gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol ar y cyfan • arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen 	17-24
<ul style="list-style-type: none"> • cyfieithu'n foddhaol rannau o ddarn ffeithiol yn lled gywir mewn iaith ffurfiol / cyfieithu darn llenyddol ei naws gan greu naws, awyrgylch ac arddull y gwreiddiol yn foddhaol mewn rhannau ohono • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen 	10-16
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E yn unig. 	0-9



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk